Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl342

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe – *Kicks* Uwch Gynghrair (Dyfed-Powys) 24-25

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn 2021, penderfynodd y Comisiynydd roi arian am 3 blynedd ar gyfer cyflwyno prosiect *Kicks* Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe ledled ardal Dyfed-Powys. Daeth hyn i ben fis Awst 2024 (gweler cofnodion Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys dyddiedig 28 Hydref 2022 am ragor o fanylion).

Gofynnwyd am ragor o arian er mwyn parhau â'r gweithgarwch llwyddiannus a gyflenwir gan Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe o ran cyflwyno sesiynau addysg ac ymyrraeth ieuenctid cadarnhaol.

Bydd y prosiect yn darparu gweithgareddau pêl droed i bobl ifainc 8 – 18 oed o bob gallu. Mae mecanweithiau cyfeirio mewn grym i alluogi partneriaid Statudol a Gwasanaethau Plant/Pobl Ifainc i gyfeirio pobl i'r prosiect hwn a fydd yn elwa o'r ymyrraeth – gan gynnwys gwelliannau i iechyd, lles, sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd.

Cyflwynir y sesiynau hyn i grwpiau oed 8 i 11 a 12 a 16, ac fe'u cynhelir yn wythnosol yn Llanelli, Rhydaman, Penfro, Aberystwyth, a'r Drenewydd.

Mae'r lleoliadau a ddewiswyd i dderbyn y gweithgarwch ymyrraeth gynnar ac atal hwn wedi'u lleoli yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ardal Dyfed-Powys, fel y nodir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

Yn ogystal â'r gweithgareddau dargyfeiriol hyn, bydd y prosiect yn cynnig gweithdai a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth, yn ogystal â'r cyfle i wirfoddoli mewn sesiynau ac ar gyfer prosiectau gweithredu cymdeithasol.

**Argymhelliad:**
Rhoi £41,737.00 o Gronfa'r Comisiynydd tuag at gyflenwi'r prosiect.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 17/09/24**